# Adroddiad terfynol

## Adroddiad annibynnol ar sylwadau gan Sefydliadau Trydydd Sector yng Nghymru ar Ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021-2025.

## Cynnwys


| **Eitem** | **Rhif tudalennau** |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 3 - 5 |
| Adborth gan y sefydliadau yr ymgynghorwyd â hwy | 6 - 10 |
| Cyfleoedd i wella | 11 |
| Cydnabod | 12 |
| Atodiadau | 13 - 16 |
| Atodiad 1<br>Brîff a methodoleg y prosiect | 13 |
| Atodiad 2<br>Rhestr o'r sefydliadau a fu'n rhan o'r prosiect | 14 |
| Atodiad 3<br>Ffurflen cydsynio ar sail gwybodaeth | 15 -16 |

## Crynodeb gweithredol

Yn 2019 cafodd Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau (Cymru) <about:blank> ei deddfu gan y Senedd. Roedd un o'r pwerau newydd yn rhoi pŵer ymchwilio Ar ei Liwt ei Hun i OGCC o dan adran 4 o'r Ddeddf. Diben y pŵer hwn yw galluogi'r Ombwdsmon i gynnal ymchwiliad Cymru gyfan i'r ffordd mae gwasanaeth a ddewiswyd yn cael ei ddarparu. Nod yr ymchwiliad yw canfod sut y gellid darparu gwasanaethau'n well i bobl ledled Cymru.

Ers cyflwyno'r Ddeddf, mae OGCC wedi cynnal dau ymchwiliad Ar ei Liwt ei Hun, sydd i'w gweld ar y wefan yma:

*Adolygiad Digartrefedd: Drws agored i newid cadarnhaol.*

*A ydym yn gofalu am ein gofalwyr? Ymchwiliad Ar ei Liwt ei Hun i Weinyddiad Asesiadau o Anghenion Gofalwyr yng Nghymru*.

Mewn ymateb i ymchwiliad Pwyllgor Cyllid y Senedd i weithrediad ac effaith y pwerau newydd a gyflwynwyd yn y Ddeddf, comisiynodd yr Ombwdsmon brosiect annibynnol i gael adborth gan sefydliadau Trydydd Sector sy'n gweithio naill ai mewn ffyrdd uniongyrchol i warchod y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas neu sy'n darparu gwybodaeth i elusennau a grwpiau sy'n eiriol ar eu rhan.

Cynhaliwyd y prosiect annibynnol gan Ruth Marks CBE, (cyn Brif Weithredwr WCVA) rhwng Chwefror a Mawrth 2025 a cheir crynodeb o'r prif ganfyddiadau isod.

Mae sefydliadau Trydydd Sector yn weithredol ym mhob rhan o fywyd Cymru ac mae llawer yn gweithio'n glos â gwasanaethau cyhoeddus. Mae rhai elusennau a sefydliadau gwirfoddol yn darparu gwasanaethau uniongyrchol i bobl sydd mewn amgylchiadau bregus ac mae ganddynt gryn arbenigedd o ymdrin â phob un o'r nodweddion cydraddoldeb. Mae staff a gwirfoddolwyr yn darparu cymorth i bobl sy'n wynebu anfantais, gwahaniaethu ac annhegwch wrth geisio cael gwasanaethau.

Mae maint a chwmpas sefydliadau Trydydd Sector yn amrywio; fodd bynnag mae eu hymrwymiad a'u penderfyniad yn gyson. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr ymateb positif a gafwyd gan sefydliadau Trydydd Sector y cysylltwyd â hwy ar gyfer y prosiect hwn i drafod a myfyrio ar ymchwiliadau Ar ei Liwt ei Hun yr Ombwdsmon.

Mae'r Trydydd Sector wedi gwneud cyfraniad hanfodol i'r ymchwiliadau a gynhaliwyd hyd yma, gan fanteisio ar eu profiad o weithio â phobl a grwpiau agored i niwed ym mhob cymuned ar hyd a lled Cymru. Mae elusennau a sefydliadau gwirfoddol yn helpu pobl sy'n teimlo bod gwasanaethau cyhoeddus wedi'u gadael i lawr, pobl sydd wedi wynebu digwyddiadau bywyd anodd a niferus, ynghyd ag anfantais a thrawma, ac sydd o ganlyniad heb lawer o ffydd mewn systemau a phrosesau swyddogol.

Mae'r Ombwdsmon yn rhoi pwyslais ar wella gwasanaethau cyhoeddus drwy fynd i'r afael â chamweinyddu. Byddai mwy o gydweithredu â'r Trydydd Sector yn fuddiol i'r ddwy ochr, ond yn bwysicach na hynny, byddai'n arwain at gymorth a gwasanaethau gwell i'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

Cymru yw'r unig wlad yn y DU sydd â systemau ymgysylltu ffurfiol rhwng y Trydydd Sector a'r Llywodraeth. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r potensial gwirioneddol i adeiladu ar y systemau hyn gyda'r Ombwdsmon, y sector cyhoeddus ehangach a'r Trydydd Sector. Byddai hyn yn dangos gwerth am arian a mwy o ddemocratiaeth yn unol ag ymrwymiadau polisi cenedlaethol ac egwyddorion partneriaeth gymdeithasol.

### Y broses o wneud penderfyniad i gynnal Ymchwiliad Ar Liwt ei Hun.

Mae'r broses benderfynu'n cynnwys sawl cam gan gynnwys dadansoddi gwaith achos, cwmpasu'r mater, ymgynghori â chyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid ehangach sy'n arwain at gynnig mwy penodol. Mae'r broses hon yn cymryd cryn amser cyn y gall yr ymchwiliad ei hun ddechrau.

Roedd cefnogaeth unfrydol ymhlith y sefydliadau yr ymgynghorwyd â hwy bod pwerau ymchwilio Ar ei Liwt ei Hun yn cynnig lefel ychwanegol a gwerthfawr o graffu ar wasanaethau cyhoeddus.

Yn ôl un a gyfrannodd "Mae'r ddau faes a ddewiswyd wedi fy mhlesio...mae digartrefedd a gofalwyr yn rhai nad ydynt yn cael eu gweld na'u clywed yn aml am nad ydynt efallai'n cael eu cynrychioli gyda'i gilydd."

### Y profiad o ymgysylltu ag OGCC drwy gydol y broses ymchwiliadau Ar ei Liwt ei Hun.

Roedd sefydliadau Trydydd Sector yn croesawu'r cyfle i weithio â'r Ombwdsmon ac yn deall bod ymgysylltu'n helpu i egluro cwmpas yr ymchwiliad, cywirdeb y canfyddiadau a phwyslais yr argymhellion.

Meddal un rhanddeiliad "Mi fuasem bob amser yn ystyried cais am wybodaeth gan yr Ombwdsmon fel ymgysylltiad gwirioneddol bositif ac yn un y buasem yn rhoi blaenoriaeth iddo."

Nododd sefydliadau Trydydd Sector fod eu gwasanaethau rheng flaen yn gweld anghyfiawnder yn digwydd a'u bod felly mewn sefyllfa dda i rannu data a thystiolaeth berthnasol â'r Ombwdsmon.

Roedd yr holl sefydliadau'n cytuno bod cynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn hanfodol, a bod amrywiaeth ymhlith y lleisiau rheini o'r pwys mwyaf. Felly mi oeddent yn croesawu'r dull a fabwysiadwyd gan yr Ombwdsmon i sicrhau bod barn defnyddwyr yn rhan ganolog o ymchwiliadau, ac roeddent yn teimlo bod hyn wedi'i gyflawni wrth i'r Ombwdsmon ymgynghori a chydweithredu â hwy drwy gydol y broses.

Roedd un rhanddeiliad yn adlewyrchu sylwadau llawer o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy: "Diolch yn fawr iawn am feddwl amdanom ac am gysylltu â ni oherwydd mi ydym yn gwerthfawrogi hyn ac mi ydym yn gwerthfawrogi'r adroddiadau ar ei liwt ei hun hefyd."

### Canfyddiadau o effaith yr ymchwiliadau ac a yw cwmpas yr argymhellion yn cael eu cefnogi.

Cynhaliwyd yr ymchwiliad cyntaf i ddigartrefedd yn 2021 a chwblhawyd yr ail ymchwiliad i asesiadau o anghenion gofalwyr yn 2024.

O ran deall effaith, roedd sefydliadau'r Trydydd Sector yn teimlo yn eu bod mewn sefyllfa i wneud sylwadau ar yr ymchwiliad cyntaf yn unig, gan fod yr ail ymchwiliad yn rhy ddiweddar.

Mae'n bwysig nodi bod yr adroddiadau i ymchwiliadau digartrefedd wedi annog meddwl ac wedi cryfhau'r trafodaethau polisi. Mae sylfaen dystiolaeth yr ymchwiliad

wedi cael ei defnyddio mewn grwpiau cyfeirio arbenigol ac wedi dylanwadu ar ddeddfwriaeth.

Cyfeiriodd sawl sefydliad Trydydd Sector at y Panel Adolygu Arbenigol a sefydlwyd i adolygu deddfwriaeth ddigartrefedd. Cafwyd cyfeiriadau manwl gan y Panel at yr Ymchwiliad Ar ei Liwt ei Hun yn ei waith.

“Roedd yn wych cael adroddiad yr Ombwdsmon fel darn o ymchwil annibynnol i dynnu sylw at faterion o’i bersbectif unigryw ac am ei fod mor uchel ei barch.”

Roedd rhanddeiliaid a gymerodd ran yn canmol yr ymchwiliadau ac roedd ansawdd yr adroddiadau a gynhyrchwyd wedi creu argraff arnynt. Canlyniad positif yw bod cefnogaeth eang i argymhellion y ddau ymchwiliad.

Roedd sefydliadau Trydydd Sector yn awyddus i wybod sut fyddai’r Ombwdsmon yn dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif. Roeddent eisiau gweld effaith adroddiadau ac argymhellion yr Ombwdsmon yn cael eu monitro dros amser i weld a oeddent yn gwneud gwahaniaeth positif i fywydau pobl ac yn gwella eu profiad o wasanaethau cyhoeddus.

**Cyfleoedd i wella**

1. Datblygu ymhellach ffyrdd o weithio â’r Trydydd Sector.
2. Sefydlu pwyntiau cyswllt cyffredinol a phwnc penodol rheolaidd.
3. Cyfnewid gwybodaeth am dueddiadau a data i dynnu sylw at faterion presennol neu sy’n dod i’r amlwg sy’n ymwneud â darparu gwasanaethau.
4. Cynnwys pobl â phrofiad bywyd a phobl sy’n gweithio mewn gwasanaethau rheng flaen.
5. Rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i’r pŵer Ar ei Liwt ei Hun.

## Adborth gan y sefydliadau yr ymgynghorwyd â hwy

1. **Canfyddiad sefydliadau Trydydd Sector o broses OGCC wrth benderfynu beth i ymchwilio iddo (neu beidio ymchwilio)**

### Shelter Cymru

Deall bod y broses yn canfod gwybodaeth o dueddiadau gwaith achos i ganfod materion allweddol yn rhesymau dilys dros asesu ac ymchwilio.

Yn achos meysydd technegol deddfwriaeth a rheoliadau mi all fod yn anodd yn aml i gael golwg fanwl i weld a yw bwriad y polisi'n amrywio o'i ymarfer ar lawr gwlad. Fodd bynnag, pan fydd anghyfiawnder yn digwydd, bydd y cyfle i edrych yn fanwl yn bwysicach nag erioed.

Roedd staff OGCC yn bositif iawn ynglŷn â chael data a thystiolaeth gan dimau polisi a gwaith achos Shelter Cymru.

### Llamau

Mae'r broses ymchwilio'n ychwanegu at ddemocratiaeth ac mae felly'n hanfodol i arferion gweithio da.

Bu cryn drafod ar gymhlethdod digartrefedd a'r angen i gytuno ar agweddau pwysicaf yr ymchwiliad.

Byddai mwy o gydweithrediad yn ystod yr ymgynghoriad a cham y cynnig wedi bod yn ddefnyddiol, gan helpu i dynhau ffiniau a phwyslais yr ymchwiliad.

### Crisis

Roedd yn brofiad positif ac roedd yn braf cyfrannu at ymchwiliad annibynnol a oedd yn edrych ar ddarpariaeth gwasanaeth o safbwynt gwahanol.

### Gofalwyr Cymru

Roedd y broses yn un positif am fod yr ymchwiliad yn delio â mwy nag un achos unigol ac roedd yn edrych ar effaith ehangach a systematig.

Penderfynwyd ar union fanylion yr Ymchwiliad Ar ei Liwt ei Hun hwn yn sgil digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid / digwyddiad rhannu syniadau a oedd yn cynnwys sefydliadau gofalwyr.

### Bord Gron

Roedd dealltwriaeth o fanylion y broses ymchwilio'n amrywiol.

Roedd rhai sefydliadau Trydydd Sector yn ymwybodol ac yn deall yr ymgynghoriad, y cynnig a'r broses ymchwilio.

Roedd y sefydliadau hyn yn dueddol o fod yn elusennau a sefydliadau Trydydd Sector mawr gydag ymgyrchoedd penodol a swyddogaethau polisi wedi'u lleoli yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oedd dealltwriaeth sefydliadau llai o'r broses gystal, ond roeddent yn hyderus ac yn dawel eu meddwl y gallai'r Ombwdsmon ymgymryd ag ymchwiliadau o'r fath.

Roeddent i gyd yn cytuno bod y broses yn galluogi cymryd golwg fwy cyfannol ar faterion sy'n effeithio ar anghydraddoldebau.

Roedd sefydliadau'n cydnabod buddiannau sylweddol dysgu drwy ymchwiliadau gwaith achos a phwyslais ar 3 neu 4 corff cyhoeddus o wahanol rannau o Gymru.

Roeddet yn awyddus i ddysgu mwy ac yn y dyfodol hoffent ddatblygu ffyrdd o rannu gwybodaeth o brofiad bywyd a allai helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i bobl sy'n wynebu nifer o anfanteision a gwahaniaethu.

Nododd sefydliadau gofalwyr fod gwaith tebyg i asesiadau o anghenion gofalwyr yn cael ei wneud gan Arolygiaeth Gofal Cymru a Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar yr un pryd ag ymchwiliad OGCC. Y farn felly oedd bod hyn yn creu gwaith ychwanegol i randdeiliaid yn y Trydydd Sector a'r posibilrwydd bod gwaith yn cael ei ddatblygu ac y gallai hynny achosi dryswch.

## 2. Y profiad o ymgysylltu ag OGCC drwy gydol y broses ymchwiliad Ar ei Liwt ei Hun – o rannu syniadau am feysydd i ymchwilio iddynt i gynorthwyo'r swyddfa gyda thystiolaeth a chasglu adborth ar yr effaith.

### Shelter Cymru

Bu ymgysylltu positif â staff unigol i rannu data a thystiolaeth. Ffurfiwyd grŵp ffocws defnyddiol a oedd yn gyfle i rannu profiadau bywyd yn uniongyrchol. Roedd modd monitro effaith dros nifer o flynyddoedd ers yr ymchwiliad. Mae'n bwysig nodi bod angen amser ac adnoddau os yw cydweithredu am fod yn effeithiol.

### Llamau

Ar ôl y trafodaethau cychwynnol bu llai o gysylltiad uniongyrchol oherwydd cyfyngiadau o ran adnoddau. Y farn oedd bod amserlen yr ymarferiad cwmpasu'n rhy hir a bod hyn yn achos rhwystredigaeth.

### Crisis

Nodwyd fod eu profiad o weithio â'r Ombwdsmon wedi bod yn un positif ac yn y dyfodol mi fuasent yn gwerthfawrogi ac yn rhoi blaenoriaeth i gyfleoedd i ddarparu rhagor o wybodaeth pe ymgynghorid â hwy.

### Gofalwyr Cymru

Roedd eu cysylltiad â'r ymchwiliad wedi bod yn brofiad positif dros ben ac roeddent yn teimlo bod staff OGCC yn awyddus i dderbyn data a thystiolaeth gan y sefydliad a chan ofalwyr. Roeddent yn gallu hwyluso cysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth a bod hynny yn ei dro'n helpu i gyflawni un o'u blaenoriaethau strategol hwy sef bod gofalwyr yn dylanwadu'n uniongyrchol ar bolisi ac ymarfer.

Mae gofalwyr yn llai tebygol o gysylltu ag OGCC fel unigolion na grwpiau eraill. Roedd cydweithredu i ymgysylltu ag OGCC wedi helpu i greu'r darlun ac i amlygu gwahaniaethau a bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir ledled Cymru.

### Bord Gron

Roedd sefydliadau llai'n teimlo bod ceisiadau'n cael eu gwneud am lawer iawn o wybodaeth a bod hyn yn achosi straen ychwanegol ar adnoddau a oedd eisoes dan bwysau. Mae'r sefydliadau hyn yn gwybod bod y bobl maent yn gweithio â hwy'n llai tebygol o gysylltu'n uniongyrchol ag OGCC.

Mae'n arwyddocaol dros ben eu bod wedi amlygu pryder bod rhai cyrff cyhoeddus yn tynnu'n ôl o ymgysylltu â'r Trydydd Sector. Y farn yw bod hyn yn bygwth ymdrechion i rannu gwybodaeth a syniadau i wella gwasanaethau i bobl mewn amgylchiadau bregus.

Meddai un sefydliad "Mi aeth popeth yn eithaf didrafferth".

Fodd bynnag, roedd yr amser a'r adnoddau a oedd ar gael i sefydliadau'n amrywio'n fawr. Roedd hyn yn golygu bod sefydliadau mwy mewn sefyllfa well i ddarparu tystiolaeth, data, ymchwil ac astudiaethau achos i ymchwiliad yr Ombwdsmon. Roedd adborth yn dangos eu bod yn gwerthfawrogi'n fawr y cyfle i rannu eu gwaith.

Roedd sefydliadau gwirfoddol llai'n teimlo bod yr holl wybodaeth y gofynnwyd iddynt ei darparu'n llethol. Mae ganddynt dystiolaeth ddefnyddiol iawn i'w rhannu, ond gan mai delio ag argyfyngau yw eu gwaith yn bennaf, nid oes ganddynt yr adnoddau i ddal ati i ymgysylltu mewn prosesau maith. Roedd adborth yn dangos awydd cryf i gymryd rhan mewn ymchwiliadau, ond byddai'n fuddiol iddynt pe byddai prosesau ymgynghori ac ymgysylltu'n fwy cryno a phe bai mwy o bwyslais yn cael ei roi ar ba wybodaeth fyddai fwyaf defnyddiol i werthuso'r agweddau pwysicaf hynny ar ddarparu eu gwasanaeth.

## 3. Canfyddiadau o'r effaith hyd yma - neu, os yw'r argymhellion yn rhy ddiweddar i gynnig sylw arnynt, a oes cefnogaeth i gwmpas yr argymhellion

### Shelter Cymru

Gan fod yr Ymchwiliad Ar ei Liwt ei Hun yn seiliedig ar dystiolaeth, roedd y Panel Adolygu Arbenigol i Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yn gallu manteisio ar wybodaeth o adroddiad OGCC. Mae'r gwaith wedi goleuo ac ehangu'r drafodaeth ar bolisi.

Nodwyd effeithiau penodol: cynnydd amser o 56 diwrnod i chwe mis sy'n golygu mwy o gyfle i adolygu'r agwedd "camau rhesymol". Roedd un arall yn ymwneud â'r amserlen ar gyfer adolygiad yn ymwneud â llety dros dro'n lleihau o 56 diwrnod i 21 diwrnod ac mae hynny wedi cael effaith bositif ar bobl sy'n wynebu digartrefedd.

Mae rhai Awdurdodau Lleol yn amlwg yn mabwysiadu dull cyfannol, ystyriol o drawma, ond pob un. Mae'r swyddogaeth / gwasanaeth Cymryd Sylw'n cael effaith mewn rhai rhannau o Gymru.

Gan fod OGCC yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus mae cyfle i gynnwys pobl â phrofiad bywyd wrth ystyried effeithiolrwydd gwasanaeth cyhoeddus.

### Llamau

Heb ei argyhoeddi i'r un graddau ei fod wedi cael llawer o effaith. Mi allai'r argymhellion fod wedi bod yn fwy eofn.

### Crisis

Yn cadarnhau llawer o'r pwyntiau a wnaed gan Shelter Cymru gan nodi mai Crisis oedd y sefydliad a oedd wedi cynnull y Panel Adolygu Arbenigol a fu'n edrych ar newidiadau i'r ddeddfwriaeth tai ac a oedd wedi manteisio ar adroddiad yr Ombwdsmon.

Roedd y sefydliad hwn wedi ymgysylltu â'r Ombwdsmon ac mi oedd yn aelod o'r Panel Adolygu Arbenigol. Nodwyd ganddynt y gallu i gyfeirio at faterion penodol "Roeddwn yn gallu gwneud hynny i raddau helaeth oherwydd gwaith yr Ombwdsmon, gan fod pobl yn deall yr hyn oedd gen i mewn golwg …ac nid oedd yn swnio fel syniad a oedd wedi'u dynnu o'r awyr, ond ei fod yn hytrach wedi'i seilio ar dystiolaeth. Mae'n edrych yn debyg y bydd rhai o'r diwygiadau'n cael eu derbyn."

Mae'r adroddiad ar gael yma: https://www.crisis.org.uk/media/qdjn4x2n/rhoi-diwedd-ar-ddigartrefedd-yng-nghymru-adolygiad-deddfwriaethol.pdf

Pwynt pwysig i'w nodi yw am fod yr Ymchwiliad yn seiliedig ar dystiolaeth, roedd aelodau'r Panel Adolygu Arbenigol yn gallu cyfeirio ato pan oeddent yn pwyso a mesur y diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig a ragwelir yn y dyfodol.

Hefyd, o ran yr argymhellion yn adroddiad yr Ombwdsmon "…mae rhai ohonynt wedi bod yn sail i'r Papur Gwyn, sy'n wych. Mae'n sicr wedi gwneud i bobl feddwl beth oedd y gwendidau."

**Gofalwyr Cymru**

Mae'r adroddiad wedi bod yn ddylanwadol yn achos materion allweddol. Roedd yn ddefnyddiol dros ben i ddangos sawl ongl a gwneud cysylltiadau ag arolwg Dilyn y Ddeddf (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Roedd y gwaith manwl â'r awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt yn ddefnyddiol ac yn enwedig y gallu i dynnu sylw at ddiffygion yn y broses casglu data.

**Bord Gron**

Mae angen i OGCC ystyried sut i gael cyhoeddusrwydd mwy eang i'w waith oherwydd mae rhai sefydliadau sydd heb sylweddoli bod angen i awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt ymateb i'r adroddiad.

Cafodd rhanddeiliaid sicrwydd bod ymrwymiad ar y cyrff hynny i ymateb a bod OGCC yn gwneud gwaith dilynol ar yr ymchwiliad ar ôl cyfnod penodol.

Roedd adborth yn cadarnhau'r pwyslais ar ganlyniadau unigol ac ymarferol yn hytrach na phroses ac ymarferiad ticio blychau.

Roedd yr argymhellion yn cael eu gweld fel ffordd ddefnyddiol i wella eiriolaeth ar ran buddiannau defnyddwyr gwasanaeth.

## 4. Sut ellir gwella gwaith Ar ei Liwt ei Hun yr Ombwdsmon, boed o ran hyd a chymhlethdod y broses, ymgysylltu â'r cymunedau a effeithir neu waith i olrhain yr effaith

### Shelter Cymru

Roedd o blaid mwy o ymgysylltu â chydweithwyr rheng flaen gan fod ganddynt brofiad uniongyrchol a gwybodaeth gwbl berthnasol i'w rhannu. Byddai'n fuddiol i gysylltu â sefydliadau Trydydd Sector drwy ddefnyddio platfformau a rennir i sicrhau cyfathrebu cynhwysfawr – e.e. digwyddiad Cynhadledd Pobl a Thai a rhestrau postio.

### Llamau

Datblygu dull mwy cydweithredol tuag at gwmpasu a methodoleg. Ystyried gweithgor ar y cyd i ganfod materion allweddol ac i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n achosi'r trawma mwyaf.

### Crisis

Argymhellwyd y dylai adroddiadau dilynol ystyried yr awdurdodau yr ymchwilir iddynt ac Awdurdodau Lleol eraill a Llywodraeth Cymru i gael mwy o effaith.

### Gofalwyr Cymru

Sicrhau dealltwriaeth glir o'r broses i gysylltu â defnyddwyr gwasanaeth unigol. Roedd yr elusen wedi cysylltu â nifer o ofalwyr a oedd wedi cytuno i fod yn rhan o'r ymchwiliad. Roedd OGCC wedi cysylltu â rhai o'r grŵp, ond nid pawb. Pan gysylltodd gofalwyr â'r elusen i ofyn pam nad oedd neb wedi cysylltu â hwy, nid oeddent yn gwybod dim am y peth ac mi oedd hynny'n rhoi'r staff mewn sefyllfa anodd. Mae eglurder ynglŷn â niferoedd yn hanfodol; pwy fydd yn cysylltu â phwy, a phryd.

### Bord Gron

Cyfathrebu'n rheolaidd â rhwydweithiau a systemau sefydledig sydd i'w cael yn y Trydydd Sector cyffredinol ac ag arbenigeddau gan gynnwys digartrefedd, gofalwyr a nodweddion cydraddoldeb.

Dylid defnyddio iaith glir a'r un derminoleg – e.e. Cyfeirir at Asesiadau o Anghenion Gofalwyr fel sgyrsiau Yr Hyn Sy'n Cyfrif hefyd, ac mae hyn yn achosi dryswch o fewn y system.

Gellid ystyried cynnwys dolen at ymchwiliadau Ar ei Liwt ei Hun ar dudalen gartref gwefan OGCC. Nid yw'r iaith a ddefnyddir yn glir nac yn ddealladwy i bawb. Mae Ymchwiliad Ar ei Liwt ei Hun yn gywir yn achos deddfwriaeth; fodd bynnag nid dyma'r iaith fwyaf hygyrch – gallai ymchwiliadau trylwyr fod yn ddewis arall.

Byddai brand mwy eglur i'r pŵer pwysig hwn yn helpu darparwyr a defnyddwyr gwasanaeth i ddeall yn well ei berthnasedd a'i effaith bosibl ar eu bywydau.

Byddai'n werthfawr pe byddai Llywodraeth Cymru'n ystyried datganiad ysgrifenedig neu lafar pwrpasol i adroddiad Ymchwiliad Ar ei Liwt ei Hun.

**Cyfleoedd i wella**

1. Datblygu ffyrdd o weithio â’r Trydydd Sector.

Gwneud cysylltiadau â Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a fyddai’n gwella cyfathrebu ar draws y sector cyfan a’r rhwydweithiau cynrychioliadol amrywiol ar lefel leol a chenedlaethol.

2. Sefydlu pwyntiau cyswllt cyffredinol a phynciau penodol rheolaidd.

Mae enghreifftiau’n cynnwys cyfrannu at y platfform Pobl a Thai drwy Shelter Cymru neu ddigwyddiadau blynyddol fel gofod3.

3. Cyfnewid gwybodaeth am dueddiadau a data i amlygu materion sy’n berthnasol yn awr neu sy’n dod i’r amlwg o ran darparu gwasanaethau.

Datblygu system syml i rannu dadansoddiadau o waith achos a chroesgyfeirio hyn â gwybodaeth o dueddiadau rhannu’r Trydydd Sector, tystiolaeth a data sy’n dangos meysydd problemus. Byddai buddiannau’n cynnwys tystiolaeth o ffynonellau annibynnol a data a phrofiadau bywyd a ddatgelwyd gan wasanaethau rheng flaen. Gellid cyflawni hyn drwy’r pwyntiau uchod a hefyd mewn cydweithrediad ag Uned Data Trydydd Sector Llywodraeth Cymru.

4. Cynnwys pobl â phrofiadau bywyd a phobl sy’n gweithio mewn gwasanaethau rheng flaen.

Byddai hyn yn helpu i hybu ffyrdd cyfannol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac annog ymgysylltu rheolaidd rhwng cyrff cyhoeddus a’r Trydydd Sector gan arwain at fwy o ymddiried a darpariaeth gwasanaethau mwy effeithiol.

5. Rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i’r pŵer Ar ei Liwt ei Hun.

Arwain at well dealltwriaeth ymhlith unigolion a sefydliadau a all fod yn awyddus i dynnu sylw’r Ombwdsmon at faterion penodol ynglŷn â darparu gwasanaethau.

**Cydnabod**

Diolch i gynrychiolwyr y sefydliadau Trydydd Sector sydd wedi galluogi eu staff i ymwneud â'r prosiect o fewn yr amserlen ofynnol.

AVOW (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam)

Gofalwyr Cymru

CAVO (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion)

Crisis

FLVC (Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint)

Anabledd Dysgu Cymru

Llamau

NEWCIS

Shelter Cymru

TGP Cymru

Diolch hefyd i staff canlynol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am y briffiau a'r gefnogaeth i'r prosiect:

Yr Ombwdsmon

Y Prif Swyddog Cyfreithiol a'r Cyfarwyddwr Ymchwiliadau

Y Prif Swyddog Ar ei Liwt ei Hun

Y Cynorthwyydd Gweithredol

Staff Cymorth TGCh

Diolch yn arbennig i'r Pennaeth Polisi, Cyfathrebu a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant am ddarparu gwybodaeth a chymorth technegol.

## Atodiad 1

### Briff y prosiect

Cael dealltwriaeth o'r broses Ar ei Liwt ei Hun a'r ffyrdd o weithio'n fwy cyffredinol, yn ogystal â manylion am y ddau ymchwiliad Ar ei Liwt ei Hun a gynhaliwyd hyd yma.

Cynnal cyfweliadau wedi'u lled strwythuro â chynrychiolwyr detholiad o sefydliadau Trydydd Sector i drafod safbwyntiau a phrofiadau o'r broses, ymgysylltiad ac effaith y ddau ymchwiliad Ar ei Liwt ei Hun ynghyd ag unrhyw feysydd i'w gwella.

Byddai'r cyfweliadau'n canolbwyntio ar y sefydliadau sy'n gweithio â chymunedau agored i niwed sy'n berthnasol yn uniongyrchol i'r ymchwiliadau a gynhaliwyd hyd yma.

Hefyd, ymgysylltu â sawl sefydliad na fu â chysylltiad agos, i gasglu sylwadau ar welededd a'u dealltwriaeth o'r pwerau Ar ei Liwt ei Hun.

Dadansoddi'r canlyniadau a chynhyrchu adroddiad byr, sy'n amlygu'n benodol unrhyw wersi a chyfleoedd i wella.

### Methodoleg

Cyfarwyddo drwy ddarllen a briffiau

Cyfweliadau 1-1 â'r canlynol:

Cyn Bennaeth Ymgyrchoedd Shelter Cymru

Pennaeth Ymgyrchoedd Shelter Cymru

Prif Weithredwr Llamau

Pennaeth Polisi a Chyfathrebu Crisis (Cymru)

Uwch Reolwr Polisi a Materion Cyhoeddus Gofalwyr Cymru

Cyfarfod bord gron â thri Chyngor Gwirfoddol Sirol, TGP Cymru, NEWCIS, Anabledd Dysgu Cymru

Dadansoddi ac ysgrifennu adroddiad

## Atodiad 2

### Rhestr o'r sefydliadau a fu'n gysylltiedig â'r prosiect

| Enw'r sefydliad | Math o gysylltiad |
|---|---|
| Shelter Cymru | Cyfweliadau 1-1, wedi'u recordio a'u trawsgrifio â 2 o bobl |
| Llamau | Cyfweliad 1-1, wedi'i recordio a'i drawsgrifio |
| Crisis | Cyfweliad 1-1, wedi'i recordio a'i drawsgrifio |
| Gofalwyr Cymru | Cyfweliad 1-1, wedi'i recordio a'i drawsgrifio |
| CAVO - CGS Ceredigion | Bord Gron, wedi'i recordio a'i drawsgrifio |
| AVOW - CGS Wrecsam | Bord Gron, wedi'i recordio a'i drawsgrifio |
| FLVC - CGS Sir y Fflint | Bord Gron, wedi'i recordio a'i drawsgrifio |
| TGP Cymru | Bord Gron, wedi'i recordio a'i drawsgrifio |
| LDW | Bord Gron, wedi'i recordio a'i drawsgrifio |
| NEWCIS | Bord Gron, wedi'i recordio a'i drawsgrifio |

## Atodiad 3

### Ffurflen gydsynio ar sail gwybodaeth

### Cyfranogi mewn cyfweliad ansoddol

**Teitl yr astudiaeth:** 'Barn y Trydydd Sector ar ymchwiliadau Ar ei Liwt ei Hun a gynhaliwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru'
**Ymchwilydd:** Ruth Marks
**Sefydliad:** comisiynwyd yr astudiaeth hon gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
**Manylion cyswllt:** [Insert contact details]

**Cyflwyniad**
Fe'ch gwahoddir i gymryd rhan mewn cyfweliad ansoddol fel rhan o astudiaeth ymchwil a gynhelir gan Ruth Marks ac a gomisiynwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Bydd eich penderfyniad i gymryd rhan yn wirfoddol, ac mi allwch dynnu'n ôl ar unrhyw adeg heb roi rheswm, ac ni fydd unrhyw ganlyniadau'n deillio o'ch penderfyniad.

**Diben yr astudiaeth**
Diben yr astudiaeth hon yw casglu sylwadau sefydliadau Trydydd Sector yng Nghymru ar sut mae'r Ombwdsmon wedi gweithredu ei bŵer i gynnal ymchwiliadau Ar ei Liwt ei Hun hyd yma; ac a yw'r pŵer hwn wedi creu ffordd i warchod y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

Bydd yr ymchwil yn cynnwys cyfweliadau ansoddol. Bydd yr astudiaeth yn cael ei defnyddio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i werthuso gwaith Ar ei Liwt ei Hun y swyddfa ac i ganfod meysydd lle gellid gwneud gwelliannau.

**Yr hyn bydd cymryd rhan yn ei olygu**
Os byddwch yn cytuno i gymryd rhan, byddwch yn cael eich cyfweld ac ni fydd y cyfweliad yn para mwy nag awr. Bydd y cyfweliad yn cael ei recordio i sicrhau cywirdeb, a bydd eich cyfraniadau'n cael eu dadansoddi i greu adroddiad.

**Cyfrinachedd a defnyddio data**

- Bydd y cyfweliad yn cael ei recordio a'i drawsgrifio.
- Mi all eich cyfraniadau'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol, gan gynnwys rhai dyfyniadau gair am air.
- Yn ddiofyn, dim ond wrth enw eich sefydliad y byddai modd eich adnabod, ni ddefnyddir eich enw personol. Er bod y mesur hwn yn sicrhau cyfrinachedd, ni ellir gwarantu y byddwch yn gwbl ddienw gan y gallwch gael eich adnabod drwy eich sefydliad. Os oes gennych bryderon ynglŷn ag enwi eich sefydliad, mi allwch ofyn bod yr wybodaeth honno'n cael ei hepgor hefyd.
- Bydd yr adroddiad terfynol yn eiddo i'r Ombwdsmon, ac mi all yr Ombwdsmon ei ddefnyddio yn eu cyhoeddusrwydd eu hunain ac mewn ymateb i ymgynghoriadau.
- Caiff yr holl ddata eu storio'n ddiogel a'u defnyddio i ddibenion ymchwil yn unig.

- Bydd y trawsgrifiadau'n cael eu cadw gan yr Ymchwilydd a'u storio'n ddiogel am dri mis, byddant yn cael eu dinistrio ar ôl y cyfnod hwnnw.

**Risgiau a buddiannau posibl**

Ni ragwelir bod unrhyw risgiau ynghlwm wrth yr astudiaeth hon. Bydd eich cyfraniad yn cyfrannu at werthuso gwaith Ar ei Liwt ei Hun yr Ombwdsmon ac yn helpu i ganfod meysydd i'w gwella.

**Yr hawl i dynnu'n ôl**

Mae gennych yr hawl i dynnu'n ôl o'r astudiaeth ar unrhyw adeg heb roi eglurhad. Os byddwch yn dewis tynnu'n ôl, bydd eich data hefyd yn cael eu dileu ac ni fyddant yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad terfynol.

**Datganiad cydsynio**
Rwyf wedi darllen a deall yr wybodaeth a geir yn y ffurflen gydsynio hon. Rwyf yn gwirfoddoli i gymryd rhan yn yr astudiaeth ymchwil hon. Rwyf yn deall y gallaf dynnu fy nghydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg heb unrhyw ganlyniadau.

Yr wyf / nid wyf yn hapus i fod yn adnabyddadwy drwy enw fy sefydliad.

**Enw'r cyfranogwr: ________________________**

**Enw'r sefydliad:________________________**
**Llofnod: ___________________________**
**Dyddiad: ___________________________**

**Llofnod yr ymchwilydd: ___________________________**
**Dyddiad: ___________________________**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am yr astudiaeth, cysylltwch â [Insert Researcher Contact Information].